

SL(6)617 – Cod Ymarfer diwygiedig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cefndir a diben

Dyroddir y Cod Ymarfer hwn ("y Cod") o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r gofynion a geir yn y Cod.

Mae'r Cod wedi'i ddiwygio i ychwanegu cynllun cydnabyddiaeth ariannol a gyflwynwyd yn ddiweddar at y rhestr o fathau o gyfalaf y dylid eu diystyru'n llwyr yn yr asesiad ariannol ar gyfer codi ffioedd am bob math o ofal a chymorth.

Cyflwynwyd y cynllun yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025.

Y cynllun cydnabyddiaeth ariannol i'w ychwanegu at y Cod yw'r Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol.

Mae llunio Cod diwygiedig hefyd yn gyfle i ychwanegu cyfeiriad at reoliadau diwygio codi ffioedd ac asesiadau ariannol sydd wedi dod i rym ers y diwygiad blaenorol. I'r perwyl hwn, cyfeirir at Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 yn y Cod diwygiedig fel y bo'n briodol. Gwnaed y diwygiadau hyn i sicrhau eglurder a chyflawnrwydd gan fod y rheoliadau'n diwygio'r prif reoliadau y cyfeirir atynt eisoes yn y Cod.

Gweithdrefn

Drafft negyddol

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw adeg pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.



Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y 30 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Mae Adran 146(1) o'r Ddeddf yn nodi - "Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 145, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ynghylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig)."

Nodir y canlynol ym mharagraffau 5.1 a 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol:

Gan fod y Cod diwygiedig yn cynnwys un diystyriad ychwanegol sydd eisoes wedi'i weithredu drwy reoliad, nid yw'r diwygiad i'r Cod yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru ac nid oes ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol wedi'i gynnal yn yr achos hwn.

Addasiadau technegol yn unig yw'r diwygiadau i'r Cod er mwyn sicrhau bod y Cod yn adlewyrchu'n gywir y rheoliadau diwygio priodol ac yn nodi'r cynllun cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a nodir uchod.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n ystyried bod y penderfyniad i beidio â chynnal ymgynghoriad mewn perthynas â'r Cod diwygiedig hwn yn cydymffurfio ag adran 146(1) o'r Ddeddf.

2. Defnyddir termau diffiniedig yn anghyson drwy gydol y Cod:
 - i. Ym mharagraffau 1.8 ac 1.9, cyfeirir at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan ddefnyddio ei theitl llawn. Ond mae eisoes wedi'i ddiffinio fel "y Ddeddf", sydd wedi cael ei defnyddio yn y paragraffau eraill.
 - ii. Ym mharagraff 9.2, yn y testun Saesneg, diffinnir "deferred payment agreement" fel "DPA". Yn Atodiad D, yn y testun Saesneg, mae amrywiad rhwng defnyddio'r term diffiniedig "DPA" a "deferred payment agreement".
 - iii. Mewn manau, defnyddir "agreement" pan ymddengys ei fod yn cyfeirio at "DPA", megis ym mharagraffau 8.1, 9.1, 9.3 a 9.5 o Atodiad D. Ymhellach, defnyddir "agreement" yn y penawdau uwchben paragraffau 10.1 ac 11.1 o Atodiad D.
 - iv. Yn Atodiad D, ym mharagraff 2.1, yn y testun Saesneg, defnyddir y talfyriad "DPAs" fel enw lluosog o'r term diffiniedig "DPA". Fodd bynnag, yn y Cod mae amrywiad yn y testun Saesneg rhwng defnyddio "DPAs" fel yr enw lluosog neu ailadrodd y geiriau yn llawn.
 - v. Yn Atodiad D, ym mharagraff 2.1, diffinnir Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015 fel "y Rheoliadau



Taliadau Gohiriedig". Yn Atodiad F, ym mharagraff 5.1, yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at "the Deferred Payment Regulations 2015". Mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a' testun Cymraeg, gan fod y testun Cymraeg yn defnyddio'r term diffiniedig.

3. Ym mharagraff 1.5, mae'n nodi bod gofyniad wedi'i fynegi fel "**rhaid**" neu "**ni chaiff/ni chaniateir**" mewn print trwm yn y Cod, a mynegir canllawiau pan fo gan awdurdodau lleol ddisgresiwn fel "**caiff**" neu "**dylai/ni ddylai**" mewn print trwm. Mewn mannau, defnyddir y geiriau hynny mewn perthynas ag awdurdodau lleol ond nid ydynt wedi'u fformatio mewn print trwm, felly, nid yw'n glir a yw hyn yn fwriadol ac nad yw'r geiriau wedi'u bwriadu i fod â'r ystyr a nodir ym mharagraff 1.5.

Mewn mannau eraill, defnyddir ymadroddion fel "bydd angen i" a "gall" mewn perthynas ag awdurdodau lleol lle nad yw'n glir sut maent yn wahanol i "rhaid" a "caiff". Er enghraifft, ym mharagraff 4.1 – "Yn unol â gofynion y Ddeddf, y rheoliadau a'r Cod hwn, mae angen i awdurdodau benderfynu..." ac ym mharagraff 5.3 – "Fodd bynnag, gall awdurdod lleol asesu incwm neu gyfalaf cwpl ond dim ond pan fo hyn....".

Mae enghreifftiau eraill a allai achosi dryswch; y defnydd o "nor must" ym mharagraff 5.6, yn y testun Saesneg, gyda'r "must" wedi'i fformatio mewn print trwm, – "...nor **must** authorities seek payment of a contribution or a reimbursement towards such costs..." ac yn Atodiad C, ym mharagraff 4.1, yn y testun Saesneg, lle dim ond y gair "must" sydd wedi'i fformatio mewn print trwm yn hytrach na "must not" – "...a local authority **must** not set arbitrary amounts or ceilings for particular types of accommodation...".

4. Mae gwahaniaeth rhwng rhifau'r testun Saesneg a'r testun Cymraeg ar ôl paragraff 1.9. Yn y testun Saesneg, mae'r paragraffau dilynol o dan y pennawd "Advocacy" wedi'u rhifo'n anghywir fel paragraffau 1.7 a 1.8 ond yn y testun Cymraeg maent wedi'u rhifo'n gywir fel paragraffau 1.10 a 1.11.
5. Ym mharagraff 3.4, yn y geiriau agoriadol cyn y pwyntiau bwled, mae'n cyfeirio at "the Act, the regulations and this Code...". Fodd bynnag, nid yw'r ymadrodd "the regulations" wedi'i ddiffinio gydag ystyr. Felly, nid yw'n glir at ba reoliadau y cyfeirir atynt. Mae hyn yn digwydd mewn mannau eraill yn y Cod, megis paragraffau 4.1 a 5.6. Ymhellach, mae paragraffau 2.1 a 3.6 yn cyfeirio at y "Cod hwn, a'r rheoliadau y mae'n cyfeirio atynt..." sy'n disgrifio ystyr "y rheoliadau" mewn modd gwahanol.
6. Ym mharagraff 5.1, yn y testun Saesneg, mae teitl yr Offeryn Statudol yn anghywir yn rhestr yr offerynnau diwygio lle mae'n cyfeirio at "the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2022". Os yw'n cyfeirio at OS 2022/99 (Cy. 35), y teitl cywir yw "the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2022".



7. Ym mharagraff 7.2, mae'n nodi "Cyflwynwyd y gofyniad hwn yn 2011 gan Weinidogion". Fodd bynnag, mae'n ymddangos y dylai gyfeirio at "Gweinidogion Cymru".
8. Ym mharagraff 9.1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at "Annexes A and B of this Code" ond yn y testun Cymraeg mae'r geiriau "of this Code" ar goll o ystyr y cyfeiriad.
9. Yn Atodiad A, ym mharagraff 2.28(g), ceir gwahaniaeth rhwng rhifau'r testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae paragraff "(xv)", ond yn y testun Cymraeg mae'r un ddarpariaeth wedi'i rhifo fel "(vx)".
10. Yn Atodiad A, ym mharagraff 2.28(g)(xxix), mae'r cynllun cydnabyddiaeth ariannol newydd a ychwanegwyd at y Cod wedi'i eirio fel a ganlyn:
Unrhyw daliad a wneir i A gan y Weinyddiaeth Amddiffyn o dan y Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol

Er bod y geiriad hwn yn ymddangos yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015, diffinnir "A" at ddibenion y rheoliadau hynny. Gallai defnyddio "A" yn y Cod achosi dryswch, oherwydd nid yw "A" wedi'i ddiffinio yn y Cod.
11. Yn Atodiad A, ym mharagraff 2.33(g), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at "Any payment of arrears of contributions by a local authority..." ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "Any arrears of contributions held by a local authority...".
12. Yn Atodiad B, ym mharagraff 3.12(g) mae'n darllen "Grant a wnaed o dan Ddeddf Tai y mae'r person yn bwriadu ei ddefnyddio i brynu cartref neu dalu am waith atgyweirio er mwyn ei gwneud yn bosibl i breswyllo yn y cartref.". Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'n ystyried bod "Deddf Tai" yn ddigon clir i nodi'r ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn cadarnhau a wnaed grant o dan "Deddf Tai".
13. Yn Atodiad B, ym mharagraff 2.6(b), yn y testun Saesneg, mae'n nodi "any periodic sum" ond yn y testun Cymraeg mae "periodic" wedi'i fynegi drwy ddefnyddio'r ymadrodd "o bryd i'w gilydd". Gellid dadlau bod "o bryd i'w gilydd" yn awgrymu "occasionally" neu "from time to time" ac y byddai gair fel "cyfnodol" yn ddewis mwy priodol i fynegi ystyr "periodic" yn y Gymraeg.
14. Yn Atodiad B, ym mharagraff 2.6, mae gwahaniaeth rhwng rhifau'r testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae paragraff (d) – "any holiday pay...", ond yn y testun Cymraeg mae'r un ddarpariaeth wedi'i rhifo fel "(b)".



15. Yn Atodiad B, ym mharagraff 2.20(e), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae cysylltair "and" ar ddiwedd y ddarpariaeth honno i ddangos y berthynas rhwng is-baragraffau (a) i (f) ond nid oes cysylltair yn y testun Cymraeg cyfatebol.
16. Yn Atodiad C, ym mharagraff 2.1, yn yr ail bwynt bwled, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "cost the local authority more..." ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "cost the authority more".
17. Yn Atodiad C, ym mharagraff 6.1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol "set out in writing that it is unable to meet that choice and provide its reason(s) for this." Ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw bod yn rhaid i awdurdod lleol "set out in writing that it is unable to meet that choice".
18. Yn Atodiad C, ym mharagraff 10.1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi y dylai awdurdodau lleol hefyd gael rôl wrth hwyluso mynediad "to financial information and advice...", ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "to information and advice...".
19. Yn Atodiad D, mae pennawd paragraff 2.1 yn darllen "I bwy y dylid cynnig taliadau gohiriedig" ac mae paragraff 5.3 o'r un Atodiad yn nodi "i'r rhai sy'n gymwys i gael taliadau gohiriedig...", gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a ydynt yn cyfeirio at gytundebau taliadau gohiriedig, ac a ddylid diwygio'r testun i fod yn gliriach.
20. Yn Atodiad D, yn y pwyntiau bwled islaw paragraff 4.3(e), mae'n nodi - "pan fo priod neu berthynas ddibynnol (fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Asesiad Ariannol)" ac "...yn dod yn berthynas ddibynnol (fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Asesiad Ariannol)". Fodd bynnag, nid yw'r "berthynas ddibynnol" wedi'i diffinio yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015, felly nid yw'n glir beth mae'r "berthynas ddibynnol" yn ei olygu.
21. Yn Atodiad D, ym mharagraff 5.5, yn y frawddeg olaf, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "The local authority should advise..." ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "The local authority should note...". Yn gynharach yn y paragraff hwnnw defnyddiwyd y gair "cyngori" yn hytrach na "nodi" i fynegi ystyr "advise", felly mae'n golygu bod y testun Cymraeg hefyd yn anghyson.
22. Yn Atodiad D, ym mharagraff 6.1(b), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "lessor amount" pan mae'n



ymddangos ei fod yn golygu "lesser amount" sef yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg.

23. Yn Atodiad D, ym mharagraff 7.3, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "this **must** be entirely at the decision of the person..." ond nid oes ymadrodd cyfatebol i fynegi ystyr "entirely at" yn y testun Cymraeg. Mae'n arwain at wahaniaeth bach mewn ystyr a phwyslais rhwng testunau'r ddwy iaith.
24. Yn Atodiad D, ym mharagraff 10.4(c), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "and specify what notice should be given" ond nid oes ymadrodd yn y testun Cymraeg i gyfleu ystyr "specify".
25. Yn Atodiad E, ym mharagraff 2.1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at reoliad 3 o "the Review Regulations" ond yr ystyr a roddir iddo gan y testun Cymraeg yw rheoliad 3 o "the Regulations".
26. Yn Atodiad E, ym mharagraff 2.25, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "Local authorities **must** designate appropriate officers of the authority..." ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "Local authorities **must** designate appropriate officers...".
27. Yn Atodiad F, ym mharagraff 1.3, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at "a person's deductive non-payment" ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "a person's deliberate decision not to pay". Felly, mae gwahaniaeth bach o ran ystyr a phwyslais rhwng testunau'r ddwy iaith.
28. Yn Atodiad F, ym mharagraff 3.1, mae'n nodi, "os anfonwyd anfoneb yn rhoi 30 diwrnod i dalu, y daw'r taliad yn ddyledus ar ddiwrnod 30 ...". A yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y drafftio hwn yn ddigon clir ynghylch sut mae'r cyfnod o amser yn cael ei gyfrifo er mwyn nodi "diwrnod 30" yn gywir? Yn ogystal, yn y testun Cymraeg, mynegwyd ystyr "issued" yn y geiriau hynny drwy ddefnyddio gair sy'n golygu "send" a allai arwain at wahaniaeth mewn dehongliad ynghylch pryd mae'r cyfnod o amser yn dechrau.
29. Yn Atodiad F, ym mharagraff 9.2, yn y testun Saesneg, mae'n nodi "Where a local authority believes that derivation may have occurred...", mae'n ymddangos y dylai'r gair "derivation" ddarllen "deprivation", gan mai dyna'r ystyr a roddir gan y testun Cymraeg.



30. Yn Atodiad F, ym mharagraff 16.1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "or prejudicing the interests of" lle mae'n ymddangos bod y geiriau hynny yn cyfeirio at "someone who may wish to bring a claim against that person". Fodd bynnag, yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "or prejudicing the interests of that person". Felly, ystyr y testun Cymraeg yw "or prejudicing the interest of" y person sydd wedi trosglwyddo neu wedi gwerthu ei asedau, yn hytrach na "someone who may wish to bring a claim" against that person.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

